Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

# Disgyblion sy'n Dewis Cael eu Haddysgu Gartref 2017-20

# Cynnwys


| CYNNWYS | TUDALEN |
|---|---|
| Cyfrifoldebau Cyfreithiol<br>• Rhiant/ gofalwr<br>• Ysgol<br>• Awdurdod lleol | 3 |
| Teuluoedd Teithiol | 5 |
| Gweithdrefn Gwyno | 5 |
| Cysylltiadau | 5 |
| Cynghorion Pellach | 5 |
| Grwpiau Cefnogi Rhieni | 6 |

**<u>Disgyblion sy'n Dewis i gael eu Haddysgu Gartref</u>**
**<u>2017-20</u>**

**<u>Polisi ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful</u>**

**<u>Cyfrifoldebau Cyfreithiol</u>**

## 1. Cyfrifoldebau Rhieni / Gofalwr

*"Bydd rhiant pob plentyn sydd o oed ysgol gorfodol yn peri ei fod ef / ei bod hi yn derbyn addysg lawn amser effeithlon sydd yn addas–*

*(a) i'w oedran ef / i'w hoedran hi, ei allu/ ei gallu a'i dueddfryd / a'i thueddfryd, ac*

*(b) unrhyw anghenion addysgol arbennig a allai fod eu hangen arno fe / arni hi,*

*Un ai drwy fynychu ysgol yn rheolaidd neu fel arall"*

**(Adran 7, Deddf Addysg 1996)**

Mewn termau cyfreithiol, mae addysg yn 'effeithlon' os yw'n cyrraedd yr hyn mae'n anelu at ei gyrraedd ac yn 'addas' os yw'r addysg yn paratoi'r plentyn ar gyfer bywyd mewn cymdeithas fodern, wareiddiedig ac yn galluogi'r plentyn i gyflawni ei botensial i'r eithaf.

**Nid oes angen i rieni / gofalwyr** gael caniatâd oddi wrth yr Awdurdod Addysg i ddechrau addysg yn y cartref, ond, pan fo'r plentyn eisoes yn mynychu, ysgol, rhaid hysbysu'r ysgol yn ysgrifenedig o'r bwriad i wneud hynny.

Nid yw'n ofynnol i rieni gymhwyso'r Cwricwlwm Cenedlaethol, gweithredu oriau ysgol na rhoi 'gwersi' ffurfiol.

**Fodd bynnag, os oes gan y disgybl Ddatganiad o Anghenion Addysgol, a'i fod wedi ei gofrestru mewn ysgol arbennig, rhaid i rieni gael caniatâd yr ALl i dynnu eu plentyn allan o'r ysgol.**

**(Rheoliad (Cofrestru Disgybl) Addysg 9(2), 1995);**
**(Diwygiwyd, Cymru, 2001/1109)**

Mae'r rheoliad hwn er mwyn galluogi ALlau i gynnal parhad o ran eu cyfrifoldeb ar gyfer disgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig, yn hytrach na bod yn rhwystr i'r disgyblion hyn sy'n cael eu haddysgu gartref.

**Mae dyletswydd statudol ALlau i ymgymryd ag Adolygiad Blynyddol o Anghenion Addysgol Arbennig disgyblion yn parhau.**

Dylai'r Adolygiad Blynyddol asesu a yw'r datganiad yn parhau i fod yn briodol a gwneud unrhyw addasiadau angenrheidiol. Pe byddai'n ofynnol bod y datganiad i gael ei gynnal, bydd y rhiant/rhieni/ gofalwr/ŵyr yn parhau â'r cyfrifoldeb dros yr addysg a ddarperir, fodd bynnag, mae dyletswydd gyfreithiol gan yr Awdurdod Lleol i sicrhau fod anghenion pob plentyn yn cael eu diwallu.

## 2. Cyfrifoldebau'r Ysgol

Dylai ysgolion ofyn am hysbysiad ysgrifenedig oddi wrth y rhiant am ei ddymuniad i addysgu ei blentyn. Pan fydd yr ysgol yn derbyn yr hysbysiad ysgrifenedig fod y rhieni am addysgu eu plentyn gartref, cyfrifoldeb y pennaeth yw hysbysu'r ALl, yn ysgrifenedig, eu bod wedi cymryd y plentyn oddi ar y gofrestr. Rhaid gwneud hyn ymhen 10 dydd o'r hysbysiad.

Os bydd plentyn wedi ei gofrestru mewn ysgol, ni ellir cymryd ei enw oddi ar gofrestr yr ysgol oni bai fod yr ysgol yn derbyn hysbysiad ysgrifenedig fod y plentyn i'w addysgu gartref. Ni ddylid annog rhieni, ar unrhyw gyfrif, i gymryd eu plentyn oddi ar gofrestr yr ysgol i osgoi eithrio neu erlyniad am fethu â sicrhau fod y plentyn wedi bod yn mynychu'r ysgol.

## 3. Cyfrifoldebau'r ALl

Mae oblygiad ar yr ALl i gadw cofrestr o ddisgyblion sydd wedi dewis cael eu haddysgu gartref. Caiff hwn ei gynnal gan yr Athro Ymgynghorol sydd â chyfrifoldeb dros Ddisgyblion sy'n Dewis cael eu Haddysgu Gartref.

Bydd yr ALl yn dadansoddi'n rheolaidd y rhesymau pam fo rhieni yn dewis addysgu gartref. Bydd hyn yn helpu i ddynodi unrhyw batrymau neu themâu o ran rhesymau rhieni dros addysgu gartref. Wrth ddadansoddi'r rhesymau, y gobaith yw y bydd yr ALl nid yn unig yn deall addysg yn y cartref yn well, ond hefyd mewn gwell safle i ddatblygu a gweithredu mesurau i annog a chefnogi teuluoedd i gadw eu plant yn yr ysgol.

Er mwyn i'r ALl fod yn fodlon fod yr addysg a dderbyniwyd yn y cartref yn briodol, bydd yr ALl yn gweithredu'r gweithdrefnau canlynol:

- Cysylltu â'r teulu ymhen 20 dydd ysgol, un ai drwy ffonio neu yn ysgrifenedig, i drefnu cyfarfod â'r rhiant/ rhieni/ gofalwr y disgybl. Gall hyn ddigwydd yng nghartref y teulu neu mewn lleoliad arall cytunedig.
  Os nad yw'r rhiant/rhieni/gofalwr yn ymateb i ymdrechion yr Athro Ymgynghorol i gysylltu, caiff ymweliad ar y cyd ei wneud i'r cartref gyda Swyddog Lles Addysg.

- Cwrdd ag ysgol flaenorol y disgybl i gael gwybodaeth am gynnydd a gallu'r disgybl.

- Ble y bo'n angenrheidiol, ceisio cael cyngor a gwybodaeth oddi wrth asiantaethau eraill sydd wedi bod yn ymwneud â'r disgybl e.e. Gwasanaeth Lles Addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol, a'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg Plant.

- Yn ystod y cyfarfod cyntaf, trafod sut mae'r rhiant/rhieni/gofalwr yn bwriadu diwallu anghenion addysgiadol y disgybl ac amlinellu rôl ymgynghorol yr ALl.

- Sicrhau fod rhiant / rhieni / gofalwr yn ymwybodol os ydyn nhw'n dewis addysgu gartref, eu bod yn cymryd arnynt y cyfrifoldeb ariannol dros addysg eu plentyn, yn cynnwys costau arholiadau cyhoeddus a bod yn rhaid i'r plentyn barhau i dderbyn addysg briodol nes diwedd 'addysg orfodol' (hynny yw, y dydd Gwener olaf ym mis Mehefin yn y flwyddyn academaidd y mae'r plentyn yn cyrraedd 16 mlwydd oed).

- Rhoi cyfnod rhesymol o amser i'r teulu (hyd at hanner tymor) i drefnu addysg y disgybl a gwneud ymweliad pellach i drafod unrhyw faterion a allai fod wedi codi.

- Cysylltu â'r teulu ddwywaith y flwyddyn er mwyn cynnig cyfarfod yn y cartref, neu mewn lleoliad arall addas i drafod darpariaeth addysgiadol.
  Neu, efallai y byddai'n well gan rieni, ddarparu adroddiad, samplau o waith neu dystiolaeth o ddarpariaeth mewn rhyw ffurf arall briodol.
  Pe byddai yna unrhyw bryderon o ran ansawdd y ddarpariaeth, gellir cynyddu ymweliadau, drwy gytundeb o'r ddwy ochr, i ganiatáu'r Athro Ymgynghorol a rhieni i drafod ffyrdd o wneud gwelliannau.

- Bydd yr Athro Ymgynghorol yn cadw cofnodion o'r ymweliadau a wnaed a'r ddogfennaeth a dderbyniwyd. Bydd y rhain ar gael i rieni/gofalwyr yn ôl y gofyn.

- Caiff unrhyw achosion unigol sy'n peri pryder eu dwyn at sylw Grŵp Clirio'r ALl. Bydd yr Athro Ymgynghorol yn cyflwyno gwybodaeth a thystiolaeth i'r panel er mwyn cael cyngor priodol ynghylch gweithredu yn y dyfodol.
  Os yw'r Grŵp Clirio yn penderfynu fod, er gwaethaf nifer o ymweliadau a chynnig cyngor, nad yw'r disgybl yn derbyn addysg briodol, bydd cyngor yn cael ei geisio oddi wrth yr Adran Gyfreithiol cyn gofyn am gyflwyno Gorchymyn Mynychu'r Ysgol 437.

- Os bydd pryderon yn codi o ran Amddiffyn Plant, caiff Swyddog Diogelu Plant yr Awdurdod ei hysbysu gan dderbyn cyngor yn unol â hynny.

- Os bernir mai annoeth fyddai i'r Athro Ymgynghorol ymweld â'r cartref ar ei ben ei hun, cysylltir â'r Swyddog Lles Addysg er mwyn trefnu ymweliad ar y cyd.

**Teuluoedd Teithiol**

Mae safle arbennig teuluoedd Teithiol hefyd yn cael ei gydnabod gan y gyfraith (adran 444(6), Deddf Addysg 1966). Caiff rhiant/rhieni/gofalwyr teithiol eu diogelu rhag eu herlyn os yw'r rhiant/rhieni/gofalwr yn gallu arddangos y canlynol:

- Ei fod ef neu hi yn ymgysylltiedig â masnach neu fusnes o'r fath natur fel ei fod yn ofynnol i deithio o le i le;
- Bod y plentyn wedi mynychu ysgol fel disgybl cofrestredig mor rheolaidd ag y mae natur y fasnach neu'r busnes hwnnw yn caniatáu;
- Bod y plentyn, pan oedd yn chwech oed neu'n hŷn, wedi mynychu ysgol am o leiaf 200 sesiwn (hanner dyddiau) yn ystod y deuddeg mis blaenorol.

**Gweithdrefn Gwyno**

Pan fydd gan rieni / gofalwyr bryderon neu'n dymuno cofrestru cwyn, fe ddylent, i ddechrau, gysylltu â'r Athro Ymgynghorol, a fydd yn ceisio datrys unrhyw broblemau. Os yw rhiant/ gofalwr yn anfodlon â'r cyngor a gaiff ei gynnig, neu'n profi anghydfod â'r Athro Ymgynghorol, dylai cwynion gael eu gwneud drwy weithdrefn gwyno'r ALl.

**Cysylltiadau**

Rheolwr Cynhwysiant – Athro Ymgynghorol sydd â chyfrifoldeb dros Ddisgyblion sy'n Dewis cael eu Haddysgu Gartref
Adran Ysgolion
Cyfarwyddiaeth Pobl a Pherfformiad
Uned 5 Pentrebach
Merthyr Tudful
CF48 4TQ

Uwch Swyddog Lles Addysg
Adran Ysgolion
Cyfarwyddiaeth Pobl a Pherfformiad
Uned 5 Pentrebach
Merthyr Tudful
CF48 4T

**Cynghorion Pellach:**

**Butterworth's Education Law Manual [BELM *rhifyn* 0 Tudalen A/476-A484]**
**http://www.butterworths.co.uk**

**Cynhwysiant a Chefnogi Disgybl**
**Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 47/2006**
**www.wales.gov.uk/inclusionandpupilsupport**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2002**
**Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig ar gyfer Cymru**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru 34/02**
**Atal Pobl Anaddas rhag Gweithio gyda Phlant a Phobl Ifanc yn y Gwasanaeth Addysg**

**Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 52/95**
**Diogelu Plant rhag Cael eu Cam-drin**
**Rôl y Gwasanaeth Addysg**

**Grwpiau Cefnogi Rhieni:**

**Canolfan Ymgynghorol ar gyfer Addysg**
1b Aberdeen Studios
22/24 Highbury Grove
Llundain N5 2DQ
Ffôn: 0207 3548321
www.ace-ed.org.uk

**Christian Home School**
**www.homeschool.co.uk**

**Education Otherwise Association Limited**
Blwch SP 7420
Llundain N9 9SG
Ffôn: 0870 7300074
**www.education-otherwise.org**

**Gwasanaeth Ymgynghori Addysg yn y Cartref**
Blwch SP 98,
Welwyn Garden City,
Herts. Al8 6AN
Ffôn: 01707 371854
**www.heas.org.uk**

**Home Education UK**
**www.home-education.org.uk**

**Adnoddau Addysg yn y Cartref**
**www.home-education-resources.co.uk**

**Muddle Puddle**
**(Gwefan annibynnol yn canolbwyntio ar ddysgu plant 0-8 oed)**
**www.muddlepuddle.co.uk**

**The Home Service**
**(Grŵp addysg gartref cenedlaethol Cristnogol)**
**www.home-service.org**

**Gyrfa Cymru**
**www.careerswales.com**

**Ed Yourself**
**www.edyourself.org**

**Mae Addysg yn Dechrau yn y cartref**
**www.facebook.com/beginsathome**

**Cyfeillion, Teuluoedd a Theithwyr**
**www.gypsy-traveller.org/education**

**Dysgu Cymru**
**www.gov.wales/learning**

**TSO**
**www.tso.co.uk**

**Llywodraeth Cymru**
**www.gov.wales**